Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals

DATGANIAD TELERAU AC AMODAU GAN LYWODRAETH CYMRU

Cyhoeddir y datganiad hwn, ar ran Llywodraeth Cymru, fel rhan o lansiad y gwaith o recriwtio ar gyfer aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

Pwrpas y datganiad hwn yw rhoi syniad i ymgeiswyr beth fydd telerau allweddol **tebygol** eu penodiad:

- Bydd y penodiad am gyfnod o 5 mlynedd, a bydd modd ei adnewyddu yn ôl amodau

- Os nodir y bwriedir cael rhestr wrth gefn bydd ymgeiswyr a benodir i restr wrth gefn yn cael eu cadw ar y rhestr ar gyfer penodiad hwyrach os bydd angen, am gyfnod cyfyngedig o 18 mis;

- er na warentir lleiafswm o ddiwrnodau eistedd, fel arfer disgwylir i ddeiliad y swydd fod ar gael fel y bo'r angen. Gall y ffigur hwn amrywio yn unol ag anghenion busnes a bydd yn newid o dro i dro, gellir cael mwy o fanylion yn y dogfennau recriwtio.

- Byddwch yn cael ffi ddyddiol am bob diwrnod sy'n cael ei weithio, mae gwybodaeth am ffioedd cyfredol y tribiwnlysoedd unigol yn y dogfennau recriwtio ychwanegol.

Bydd cyfres lawn o delerau ac amodau ar gael i ddeiliad y swydd ar ôl iddo/iddi gael ei benodi, neu os gofynnir amdanynt cyn y penodiad.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y datganiad hwn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar:
Tribunalappointments@gov.wales

Ionawr 2019